

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mercher, 6ed Hydref, 2021 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor S. Woodhouse (Chairman)  
County Councillor A. Webb (Vice Chairman)

County Councillors: P. Clarke, A. Easson,  
C.Edwards, L. Guppy, R. Harris, V. Smith and  
J.Treharne

Also in attendance County Councillors:

## Officers in Attendance

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc  
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Menter  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Roger Hoggins, Pennaeth Gwasanaeth – Prosiectau  
Strategol (Cyfnod Sefydlog)  
Emma Davies, Swyddog Perfformiad  
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog  
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter  
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a  
Llifogydd  
Eve Parkinson, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion  
Carl Touhig, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth  
Ian Bakewell, Rheolwr Tai ac Adfywio  
Judith Langdon, Arweinydd Cymunedau a Datblygu  
Partneriaeth  
Dave Loder, Rheolwr Cyllid

**APOLOGIES:** Councillors

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Linda Guppy fuddiant personol ond nid rhagfarnol mewn perthynas â'i gwaith ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a'i hymwneud â'r Rhaglen Dechrau'n Deg. Cytunodd gweddill yr aelodau i gofnodi unrhyw ddatganiadau o fuddiant fel y bo'n briodol wrth drafod yr adroddiadau.

### 2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Cafwyd cynrychiolaeth yn fuan cyn dechrau'r cyfarfod, ond yn anffodus nid oedd mewn da bryd i'w chyflwyno heddiw. Cytunodd y Rheolwr Craffu i fwrw ymlaen â hyn y tu allan i'r cyfarfod.

### 3. Adolygiad Pandemig Covid

Cyflwynodd Emma Davies, y Swyddog Polisi a Pherfformiad, yr adroddiad a ddosbarthwyd fel rhan o'r agenda a gyhoeddwyd. Esboniodd Emma mai pwrpas yr adroddiad oedd craffu ar adolygiad o'r hyn a ddysgodd o'r pandemig Covid ac ystyried y goblygiadau i gyfeiriad y cyngor yn y dyfodol. Dywedodd wrth y pwyllgor fod swyddogion arweiniol gwasanaeth perthnasol yn bresennol i ateb cwestiynau a allai fod gan aelodau am wahanol wasanaethau a'u heriau.

Trafododd Emma gynnwys yr adroddiad yn fanwl, gan gyfeirio at y 'cynlluniau ar dudalen' a oedd wedi cyfeirio gweithgarwch y cyngor at gefnogi'r rhai mwyaf anghenus, a'r amcan allweddol yw 'cadw bywyd'. Tynnodd sylw at yr addasiadau sylweddol i addysg a darparu dysgu o bell, yr ymdrechion i sicrhau bod busnesau'n cael eu cefnogi drwy grantiau, sefydlu'r Tîm Tracio, Orlhain a Diogelu o fewn Diogelu'r Cyhoedd a gwaith cydlynu'r cyngor o'r gweithgaredd gwirfoddoli a chymorth cymunedol i drigolion. Trafododd hefyd sut yr oedd y cyngor wedi addasu yn ystod y pandemig a sut y bydd rhai o'r ffyrdd newydd hyn o ddarparu gwasanaethau yn parhau, enghreifftiau yw amserlennu ymweliadau y gellir eu harchebu i Ganolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu, y gwasanaethau llyfrgell 'Gwneud Cais a Chasglu' a chyfarfodydd electronig o bell ar gyfer proses lywodraethu a gwneud penderfyniadau gwleidyddol y cyngor. Roedd y pandemig wedi canolbwyntio'n sydyn ar yr angen am ddulliau Teithio Llesol, fel cerdded a beicio ac roedd y cyngor yn ymateb i hyn.

Tynnodd Emma sylw'r aelodau at heriau parhaus megis prinder gyrwyr 'Cerbydau Nwyddau Trwm' (HVGau), prinder staff yn y sector gofal cymdeithasol a'r cynnydd ym mhris cyflenwadau adeiladu. Byddai'r Cabinet yn ystyried fersiwn wedi'i diweddarau o'r cynllun ar dudalen ym mis Rhagfyr a fyddai'n ystyried y sefyllfa bresennol.

Gorffennodd Emma drwy wahodd y pwyllgor i ystyried cynnydd y cyngor dros y 18 mis yn erbyn y nodau strategol a amlinellir yn y gwahanol gynlluniau ac i ofyn cwestiynau i brif swyddogion. Herio gan Aelodau:

Diolchodd y cadeirydd i Emma am ei chyflwyniad o'r adroddiad a chynigiodd ddiolch i'r holl staff am eu gwaith yn ystod cyfnod heriol a digynsail. Gwahoddodd gwestiynau gan y pwyllgor:

- Mae'r Cyngor yn cefnogi gwirfoddolwyr drwy'r Rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol, ond sut y gallwn gynnal y brwdfrydedd yr ydym wedi'i weld, y tu allan i'r pandemig?

Judith Langdon ~ Roedd yr ymateb ar raddfa nad oeddem erioed wedi'i gweld o'r blaen ac rydym wir am fanteisio ar hyn a'i gynnal. Rydym wedi bod yn ystyried y ffordd orau o'i gefnogi, er enghraifft, mae ein Tîm Cysylltiadau Lles yn gweithio gyda'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, lle nad yw achosion yn syml, ond mae angen manteisio ar yr egni a'r cyffro a deimlai pobl wrth wneud rhywbeth dros eu cymunedau fel adnodd sylweddol. Rydym wedi sefydlu Rhwydweithiau Cymorth Cymunedol i sefydlu'r strwythur i alluogi pobl i ddod ynghyd â syniadau. Rydym hefyd yn gwneud gwaith datblygu cymunedol, felly er enghraifft, efallai y bydd menter fel oergelloedd cymunedol a allai weithio'n dda mewn mannau eraill, felly rydym yn hau'r hadau mewn ardaloedd eraill i weld a oes diddordeb. I ateb eich cwestiwn, mae harneisio brwdfrydedd gwirfoddolwyr yn ffocws allweddol i ni gan fod y potensial yn enfawr.

- Sut mae uwch swyddogion yn teimlo bod staff wedi delio â'r heriau maent yn wynebu? Rhoddodd y Prif Weithredwr gefnogaeth aruthrol iawn i staff ond rwy'n meddwl tybed a ydym mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r heriau a wynebir yn y dyfodol?

Peter Davies ~ Mae hwn yn gwestiwn perthnasol iawn. Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi gorfod ymateb i straen enfawr ar eu gwasanaethau a'r cynghorau yn arbennig. Gwnaethom ymateb ar unwaith i'r pandemig drwy sefydlu gwasanaethau newydd fel Tracio, Orlhain a Diogelu. Credaf fod gennym ddiwylliant cryf gyda gwerthoedd cadarn a gweithlu cadarn ar ddechrau'r pandemig ac mae hynny'n helpu pan fydd yn rhaid i chi ymateb i sefyllfa frys. Ymatebodd ein gweithlu'n ymatebol iawn, gyda staff yn gwirfoddoli i weithio mewn gwahanol wasanaethau. Nid oedd darparu gwasanaethau'n arferol ac ni chafodd unrhyw un gwasanaeth ei adael heb ei effeithio. Trosglwyddodd gweithwyr swyddfa i weithio gartref, nad oedd yn gyfnod pontio anodd i ni gan fod gennym drefniadau gweithio hyblyg eisoes ar waith, ond byddai gwasanaethau gweithredol wedi wynebu'r her fwyaf. Mae gennym ddyletsywyd gofal i staff a bu hynny ar flaen ein sefydliad, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael

eu cefnogi yn ystod cyfnod hynod heriol. Rhaid i ni gydnabod nad ydym eto mewn cyfnod ôl-pandemig ac rydym yn parhau i wynebu her aruthrol, yn ymwneud â Covid a Brexit, gyda phrinder staffio'r sector gofal cymdeithasol, pwysau aruthrol ar wasanaethau'r GIG, yn enwedig gwasanaethau Ambiwylans ac rydym yn disgwyl ychydig fisoedd anodd drwy gyfnod y gaeaf. Credaf, i ateb y cwestiwn, mae ewyllys da ymhlith ein staff bob amser wedi bod mewn digonedd, ond gwyddom na allwn ddihysbyddu hyn.

Frances O'Brien ~ Gwnaeth y ffordd y gwnaeth pawb gamu i fyny i ymateb i'r pandemig argraff fawr arnaf a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn ein parhad i ddarparu ein holl wasanaethau craidd, pan na allai rhai cynghorau eraill. Cafodd staff eu hadleoli i rolau gwahanol er mwyn sicrhau y gallai gwasanaethau hanfodol fel y gwasanaeth prydau cymunedol a'r gwasanaethau gwastraff barhau ac rwyf am i bawb wneud hyn, gan y gellir colli'r neges weithiau mewn cyfnod brig o argyfwng. Fel arfer, mae argyfyngau'n cael eu profi dros gyfnodau byrrach, ond mae hyn wedi bod yn ddi-baid a byddwn yn parhau i weld yr effeithiau ar ein cydweithwyr.

Will Mclean ~ Ar gyfer staff ysgolion, roedd yn gyfnod anodd iawn lle'r oedd staff yn ymateb drwy newid y ffordd yr ydym wedi darparu addysg ers degawdau, drwy weithredu dulliau dysgu o bell arloesol. Roedd uniongyrchedd gorfod sefydlu hybiau gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol a oedd ar agor dros y penwythnos rhwng 8am a 6pm, felly y tu hwnt i oriau arferol ac wrth ddarparu hynny, roedd yn rhaid i ni weithio gyda chyflenwyr prydau ysgol i sicrhau bod plant yn cael prydau ysgol am ddim, felly roedd ymrwymiad anhygoel gan y sector a'n harweiniodd i gyflawni hyn ac ymatebodd pawb yn dda iawn, dan arweiniad y pennaeth ac roedd yn ymddangos bod y system ysgol gyfan yn dod at ei gilydd, ymdrech tîm go iawn. Mae gennym heriau achosion o Covid o hyd ac mae angen i blant ynysu. Mae'r staff yn hyblyg iawn ar hyn o bryd i ymateb i unrhyw newidiadau a allai ddiwydd.

- A oes unrhyw feysydd lle'r ydym yn ei chael hi'n anodd iawn, efallai na fydd aelodau'r ardaloedd yn ymwybodol ohonynt?

Frances O'Brien ~ Hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod y galw cynyddol am wasanaethau wedi bod yn rhyfeddol wrth i ni symud ymlaen drwy'r pandemig. Gwelsom ostyngiad cychwynnol ar ddechrau'r pandemig, ond gwelsom gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, rhai enghreifftiau yw nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ydym yn eu derbyn, cwynion sy'n dod yn gwynion cam 2 ac mae hyn wedi bod yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar wasanaethau, o ran ymateb i'r ohebiaeth sy'n dod i mewn. Hoffwn wahodd Mark i esbonio beth sy'n digwydd yn y maes cynllunio a phriffyrdd.

Mark Hand ~ Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyswllt â chwsmeriaid wrth i ni symud ymlaen drwy'r pandemig. Mae ein gweithlu'n eithaf ifanc, felly roedd heriau addysg yn y cartref a gweithio o bell yn effeithio ar y tîm. Ni chafodd y diwydiant adeiladu ei effeithio'n fawr ar ôl y cyfnod brig cychwynnol yn y cyfnod clo cyntaf, felly nid yw'r gwasanaethau cynllunio a gwasanaethau rheoli datblygu wedi cael eu heffeithio'n fawr o ran eu cyfaint, ond roedd yn rhaid iddynt newid arferion gwaith drwy gael ymweliadau rhithwir â safleoedd ac rydym bellach wedi recriwtio rhai swyddi ychwanegol. O ran priffyrdd, roedd ailagor canol trefi yn ddarn o waith a oedd yn sylweddol ac yn ychwanegol at y gwaith dydd, yn enwedig pan oedd rhai staff yn cael eu hadleoli. Rydym bellach yn gweithio tuag at ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ond hoffwn ddiolch i'n timau ac i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u hamynedd parhaus.

- Yn eich trafodaethau yr ydych yn ddieithriad wedi cael gyda chydweithwyr mewn awdurdodau eraill, a oes unrhyw ddysgu yr ydych yn teimlo y gallwn ei ystyried?

Peter Davies ~ Gan fynd â ni'n ôl at ddechrau'r pandemig, buom yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar argyfyngau sifil wrth gefn a chynllunio at argyfwng. Roedd cyfathrebu parhaus ac effeithiol iawn ein Prif Weithredwr a'n rôl ar Grŵp Cydlynu Argyfyngau

Strategol Gwent yn ein galluogi i gasglu rhai o'r gwersi mewn amser real. Mae trafodaethau parhaus hefyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau eraill felly mae llawer o rannu gwybodaeth ac mae Frances a Will wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau o'n dysgu. Nid oes awydd i ruthro i normal newydd yn ein cyngor, rydym yn esblygu ein dull gweithredu wrth i ni symud ymlaen, gan ystyried safbwyntiau staff, yn enwedig o ran defnyddio ein swyddfa yn y dyfodol, ond mae gennym linellau agored iawn oddi ar y cyfryngau gyda chynghorau eraill. Yn y cwestiwn cyntaf, cyfeiriwyd at wirfoddoli a'r cyfalaf cymdeithasol da a welsom ar ddechrau'r pandemig ac mae gwerth amlwg o ran cynnal y rhwydweithiau hyn a manteisio ar y gwersi rydym wedi'u dysgu, felly nid ydym yn symud yn ôl at wneud pethau fel y gwnaethom o'r blaen ond yn parhau i addasu.

Will Mclean ~ Roeddem yn gweithio'n agos gyda chyfarwyddwyr addysg ledled Cymru a Llywodraeth Cymru ac fel pump cyn-gyngor Gwent, oherwydd bod angen i ni ddeall beth oedd yn bosibl o fewn paramedrau deddfwriaeth, megis hybiau gofal plant ond hefyd yn edrych ar sut i reoli pethau eraill fel amser cinio, felly mae wedi bod yn ymdrech gydweithredol. Mae lefel mor uchel o integreiddio rhwng athrawon ar draws gwahanol awdurdodau felly rydym wedi gallu edrych mewn dulliau cyffredin ond hefyd yn adeiladu ar hyblygrwydd lleol.

Carl Touhig ~ Pan aethom i mewn i'r cyfnod clo cyntaf, yr unig wasanaeth na wnaethom ei ddarparu am 6 wythnos oedd y gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Caewyd y CAGC yn genedlaethol felly buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i agor y rheini cyn gynted â phosibl gan weithredu'r system archebu, a oedd yn anniben ar y dechrau, ond sydd wedi gwella'n sylweddol, gan dros 160,000 o ymweliadau ers ei gweithredu. Daeth yr holl wasanaethau cynnal a chadw tir a staff Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru at ei gilydd i ddarparu'r gwasanaethau gwastraff a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr gan y cyhoedd. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae'r pwysau am wasanaethau'n gynyddol aruthrol. Mae'n anochel y bydd gwyliau gartref yn creu mwy o sbwriel ac rydym wedi sylwi bod y cyhoedd yn profi mwy o broblemau yn eu hamgylchedd lleol, boed hynny'n amllder torri glaswellt, problemau gyda goleuadau stryd, tyllau yn y ffordd, ymchwiliadau gwastraff, felly mae pwysau cynyddol ar ddarparu gwasanaethau.

Mark Hand ~ O ran pethau sydd wedi gweithio'n dda yn fewnol, nid wyf yn siŵr a yw'r aelodau'n ymwybodol o hyn, ond yn wythnosol, cynhaliodd ein tîm cyfathrebu gyfarfod rhithwir o'r enw'r Cwtch, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i staff am covid naill ai gan y Prif Weithredwr neu aelod arall o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Roedd hyn yn cynnig cymorth ac arweiniad ac yn ateb cwestiynau staff. Roeddem yn sefydliad gweithio ystywyth yn barod, felly roedd hynny'n help mawr i ni. Roedd effeithiolrwydd meddalwedd Microsoft Teams a chyflymder y cyflwyno yn ein galluogi i barhau i weithio ac enghraifft yw sut y cynhaliwyd cyfarfodydd cyn ymgeisio rhithwir, gan atal rhanddeiliaid ac ymgynghorwyr rhag teithio, a byddwn yn parhau â hyn lle bo hynny'n bosibl. Roedd ein cydweithwyr yn y Gwasanaethau Eiddo hefyd yn galluogi staff i weithio mewn amgylchedd swyddfa ddiogel drwy system ddesg y gellir ei harchebu ac roedd croeso mawr i'r staff ddod i mewn i'r swyddfa a gweld pobl eraill o bryd i'w gilydd, yn ogystal â pha mor gyflym y gweithredwyd hyn.

Cath Fallon ~ Mewn ymateb i'ch cwestiwn am sut rydym wedi cydweithio, rydym wedi cyfeirio at ein rhyngweithio â'n cymunedau a sut y gallem ryddhau ein cyfalaf cymdeithasol mewn ffordd ddigynsail i weithio gyda ffrindiau a chymdogion i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed, ond rydym hefyd wedi datblygu perthynas gref â chydweithwyr mewn gwahanol wasanaethau cyngor, iechyd a gofal cymdeithasol yn enghraifft. Buom yn gweithio gyda'n gilydd i brysbennu pobl i sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth cywir i'r person cywir. Hefyd, darparodd y cyngor dros 6500 o grantiau gwerth £40 miliwn i fusnesau Sir Fynwy ac rwyf am ddiolch i'r Fforwm Cydnerthedd Busnes am eu cymorth i nodi busnes oherwydd heb eu cymorth hwy, ni fyddem wedi gallu cefnogi cynifer o fusnesau ag a wnaethom. Nid oedd gennym dîm ar waith i wneud hyn, bu'n rhaid i ni sefydlu un yn gyflym ac adleoli staff i weithio ynddo. Rydym hefyd wedi

gweithio mewn partneriaeth agos â'n Tîm Cyfathrebu a oedd yn effeithiol iawn yn eu hymgyrch Siopa Lleol a'u gwaith gyda'n gwasanaeth twristiaeth i annog pobl i ymweld â Sir Fynwy ond i wneud hynny'n ddiogel.

Eve Parkinson ~ Rydym wedi cymryd camau breision drwy gyfarfodydd gyda'r sector annibynnol fel y sector gofal cartref a'r sector gofal nyrsio, i rannu canllawiau a thrafod materion fel Cyfarpar Diogelu Personol a phrinder staff. Mae'r cyfarfodydd wedi cael eu mynychu'n dda, ond mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen partneriaeth gyfunol arnom, oherwydd ni allwn edrych ar ofal cymdeithasol a'r bwrdd iechyd ar wahân, mae angen ei ystyried yn gyfannol. Cyfeiriodd Peter at y pwysau a theimlaf fod staff wedi gweithio'n rhyfeddol o dda, ond nid oeddem yn cydnabod yn llawn effaith y cyfyngiadau symud ar ein preswylwyr a bydd misoedd y gaeaf yn parhau i gyflwyno'r heriau hynny.

- Mae angen diolch i'r Prif Weithredwr am ei arweinyddiaeth yn ystod y pandemig gan fod yr heriau a'r pwysau wedi bod yn ddi-baid. Rwy'n teimlo y dylai'r weithrediaeth fod wedi cael gwahoddiad i glywed yn uniongyrchol am yr heriau hyn. Credaf fod angen adroddiad diweddar arnom i gasglu heriau parhaus ac i gasglu pethau sydd wedi gweithio er gwell megis 'Mai Dim Torri Gwair' a'r hyn y byddwn yn ei ddatblygu o ganlyniad. Er enghraifft, daeth cerdded a beicio yn weithgaredd y treuliodd llawer o bobl fwy o amser yn ei wneud drwy'r pandemig, felly a ydym yn awr yn mynd i wella ein rhwydweithiau cerdded a beicio drwy'r Cynlluniau Teithio Llesol? Enghraifft arall, clywn fod llawer o staff yn gweithio gartref, felly a fyddwn yn dal i ehangu'r maes parcio? Mae gennyf sawl cwestiwn arall, fel a ganlyn:

- Beth yr ydym wedi'i wneud i ganmol staff a beth yr ydym yn ei wneud i gefnogi staff sydd wedi blino'n lân? A yw staff sy'n gwarchod wedi dychwelyd? Bydd rhai staff wedi ymddeol yn ystod y cyfnod hwn neu wedi newid rolau felly a ydym yn llenwi'r swyddi gwag hyn?

Eve Parkinson ~ O ran diolch i staff a chodi morâl staff, rydym wedi gwneud llawer o bethau anffurfiol ar sail leol yn amrywio o de prynhawn, cyfarfodydd cerdded ac yn fwy ffurfiol, rydym wedi anfon cerdyn wedi'i bersonoli at bob cydweithiwr gofal cymdeithasol yn y post i ddiolch nhw am eu holl waith, gan gydnabod nad oes gan bob aelod o staff fynediad at e-byst. Cawsom hefyd ein Cwtch digidol ein hunain wedi'i gydlynu ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn galluogi pawb i ymuno. O ran swyddi gwag yn y sector, mae'n heriol iawn, ac rydym yn recriwtio'n barhaus, ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddiffyg o 1200 o oriau gofal yr wythnos, gyda'r sector annibynnol yn wynebu heriau tebyg. O ran CDP, roeddem yn wynebu nifer o heriau i ddechrau ond nid wyf yn credu ein bod wedi cael problemau sylweddol yn fwy diweddar.

Will Mclean ~ Gwelsom i gyd yn eithaf cyflym fod angen rhywfaint o gymorth ar staff. Roedd y disgwyliadau gan y staff yn uchel iawn ac nid oedd yr amser arferol i gynllunio yno. I feddwl y gallech chi weithredu dysgu o bell mewn ychydig wythnosau yn unig, nid cymryd tua 2 flynedd i'w gyflwyno nid mater o wythnosau. Roedd y penaethiaid yn gallu cael gafael ar gyn-bennaeth am arweiniad a chymorth, gweithiwr proffesiynol a allai gynnig cymorth iddynt, yn ychwanegol at y llwybrau arferol. Cyfarfuom yn aml ag undebau llafur i drafod y pryderon niferus yn ystod y pandemig. Roedd gennym staff hynod agored i niwed yn glinigol a bu'n rhaid i ni weithio'n agos gydag ysgolion a'n Timau Adnoddau Dynol i'w cefnogi. Rydym wedi sôn am ddiwylliant a gwerthoedd heddiw ond roedd y gwerth 'gwasanaeth cyhoeddus' yn amlwg iawn yn ein cyngor.

Cath Fallon ~ Yn yr un modd, mae'r gyfarwyddiaeth fenter wedi diolch i'w holl staff ac nid ydynt wedi anghofio'r rhai nad ydynt yn cael mynediad at e-bost, yn anfon cardiau Nadolig a chyn gynted ag y caniateir, trefnwyd teithiau cerdded tîm a chyfleoedd anffurfiol i bobl gyfarfod yn yr awyr agored yn ddiogel, gan gydnabod y gall gweithio gartref fod yn ynysu'n gymdeithasol.

Carl Touhig ~ Fe wnes i roi sylw personol ac anfon cardiau at dros 300 o staff ac rwy'n ceisio diolch i'm staff mor aml â phosibl pa mor ddiolchgar ydw i, ond mae 18 mis o bwysau yn cynyddu a phan fyddwn yn colli casgliad gwastraff, byddwch yn amyneddgar. Pe gellid newid y naratif i ddathlu'r hyn yr ydym yn ei wneud yn hytrach na'n cymharu â'n lefel gwasanaeth cyn y pandemig, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

- Beth fyddwn ni'n ei wneud i gefnogi digartrefedd wrth symud ymlaen?

Ian Bakewell ~ Mae gennym brinder llety gwirioneddol i'r digartref. Rydym yn archwilio pob opsiwn posib gan fod gennym dros 160 o aelwydydd yn aros am lety parhaol, y bydd rhai ohonynt mewn llety gwely a brecwast. Os gallwn gael ein gwasanaethau atal yn iawn, bydd yn atal yr angen am ddigartrefedd, felly rydym yn canolbwyntio'n wirioneddol ar hyn nawr ac rydym wedi buddsoddi mewn mwy o staff sy'n gweithio ar atal digartrefedd na chyn y pandemig.

O ran camau gweithredu, rydym yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasau tai i wneud y mwyaf o'r stoc bresennol ac rydym yn edrych ar sut y gallwn ddefnyddio tai cymdeithasol yn wahanol, felly'n gofyn i'r cymdeithasau tai gynnig mwy o dai a rennir a grwpiau wedi'u targedu'n fwy megis llety 1 ystafell wely. Mae cymdeithasau tai yn prynu mwy o stoc ac rydym yn ceisio dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel cartrefi, nid fel llety yn unig.

Mae gennym arfer hirsefydlog o ymgysylltu â landlordiaid preifat drwy Wasanaeth Gosod Sir Fynwy i'w denu i'r sector ac erbyn hyn mae gennym Swyddog Gosod Sir Fynwy penodol. Yn gysylltiedig â'r sector preifat, rydym yn gwneud ymdrech ar y cyd i arolygu busnesau manwerthu i fesur cyfleoedd uwchlaw manwerthu ac mae cymdeithasau tai yn awyddus i ymgymryd â'r rhain, ond mae angen i ni gydnabod y gall yr eiddo hyn beri rhwystrau o ran rheoliadau tân, mynediad, safonau adeiladu, gofynion gofod. Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Cartrefi Gwag i'r Pwyllgor Dethol Oedolion ym mis Tachwedd. Rydym hefyd yn dechrau cael sgysysau newydd o ran y cyngor yn prynu eiddo ac a fyddai'n ymarferol dechrau cwmni datblygu i adeiladu eiddo, ond nid yw'r rhain yn feysydd hawdd i'w datblygu, ac eto rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iddynt.

Yn olaf, rydym hefyd yn siarad ag asiantaethau gwirfoddol fel sefydliad eglwys sy'n barod i brynu eiddo i ni ei ddefnyddio, felly er mai mentrau cymharol fach yw'r rhain, gobeithiwn gyda'n gilydd, gallant wneud rhywfaint o gynnydd yn y broblem o ddiffyg llety.

- Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr iawn. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â sut yr ydym yn trosglwyddo bron dros nos i ymatebydd brys. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2020, cawsom lifogydd difrifol. Sut y gwnaethom drosglwyddo i fod yn ymatebydd brys gweithredol a pha mor llyfn oedd hynny?

Mark Hand ~ Mae'n gwestiwn da. Gwnaethom ddechrau ar y pandemig ar ôl dod allan o sefyllfa frys arall. Nid oedd y pandemig yn effeithio'n uniongyrchol nac yn sylweddol ar y gwaith llifogydd, sy'n parhau, ond fe wnaeth ei ddwysáu. Roeddem yn gallu cael rhywfaint o lety gwely a brecwast ac roeddem yn gallu darparu'r bagiau tywod ond roedd yn rhaid i ni wneud rhai pethau ychydig yn wahanol. Hoffwn sicrhau'r aelodau bod gwaith yn mynd rhagddo ~ mae'n rhaid i ni ddiweddarau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ac mae angen i ni gwblhau a chyhoeddi Adroddiadau Llifogydd Lleol Adran 19 ac rydym yn trefnu rhai cyfarfodydd yn enwedig ar gyfer Magwyr a Chil-y-coed lle'r oedd rhai problemau llifogydd sylweddol. Mae Polisi Cynllun Llifogydd Cenedlaethol newydd wedi'i gyhoeddi, yr ydym yn gweithio drwyddynt ar y cyd â chynlluniau hinsawdd a'n Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae gennym rai gweithdai craffu ar faterion priffyrdd a hoffem drefnu un ar lifogydd.

- Roedd fy nghwestiwn yn ymwneud â'r heriau parhaus a amlygwyd ym mharagraff 3.8 o'r adroddiad ~ heriau fel prinder gyrwyr HGV. Faint o swyddi gwag sydd gennym ac a oes unrhyw ymchwil wedi'i wneud ynghylch pam na allwn eu denu a'u cadw?

Carl Touhig ~ Mae gennym brinder bach ar draws gwasanaethau rheng flaen, ond rydym yn recriwtio 6 gyrrwr mewn gwasanaethau gwastraff. Mae'r rhesymau'n niferus; Covid, Brexit, materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a'r ffaith ei bod yn anodd i'r sector cyhoeddus gystadlu â'r sector preifat, o ystyried y cynnydd diweddar mewn cyflogau gan archfarchnadoedd ac Amazon. Yr ydym yn gweld anawsterau gyda phrinder staff yn gyffredinol, nid yn unig o ran gyrrwyr HGV. Pan fydd y cyhoedd yn gweld casgliad gwastraff a fethwyd, dyna pryd mae'r materion yn cael eu hamlygu.

- A yw argyfwng Affganistan wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein sefyllfa o ran digartrefedd a faint o bobl o Affganistan rydym wedi'u cartrefu?

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi pobl o Affganistan i gael tai, ond nid wyf yn credu ei fod wedi achosi pwysau ychwanegol ar ein sefyllfa o ran digartrefedd. Rwy'n ymwybodol bod 3 eiddo wedi'u cyflwyno gan gymdeithasau tai, ond nid wyf yn credu bod y rhain wedi'u codi ar hyn o bryd. Byddai'n debyg na fyddai'r eiddo hynny wedi'u dyrannu ar gyfer digartrefedd. Rydym wedi cyflwyno apêl i ofyn i landlordiaid preifat a pherchnogion eiddo helpu i gartrefu pobl o Affganistan ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, fel bod hynny'n rhoi llwybr arall i ni o bobl y gallwn ymgysylltu â nhw ar y ddarpariaeth ar gyfer digartrefedd.

Casgliad y Cadeirydd:

Roedd yr adroddiad a ddarparwyd gan Emma yn gynhwysfawr iawn a oedd yn ein galluogi i gwestiynu cynifer o feysydd. Mae wedi bod yn fuddiol iawn cael y Prif Swyddogion perthnasol a'r arweinwyr gwasanaeth yma heddiw i ateb ein cwestiynau ac mae wedi ymdrin ag ystod eang o wasanaethau. Rwy'n gobeithio bod y sesiwn hon wedi bod mor ddefnyddiol i swyddogion o ran sefyll yn ôl a myfyrio ar y dysgu fel y bu i'r pwyllgor craffu. Rhaid i ni gydnabod yr ymdrechion aruthrol a wnaed gan yr holl staff, ond hefyd i gasglu'r dysgu y gallwn ei ddatblygu.

Rydym wedi ystyried yr ymateb a'r gwersi a ddysgwyd ac rydym yn cydnabod bod yr heriau'n sylweddol. Heddiw rydym wedi dwyn swyddogion i gyfrif ond rydym hefyd yn diolch i'r holl swyddogion ac rydym am gynnig ein cefnogaeth barhaus i chi. Rydych wedi rhoi gwybod i ni bob cam o'r daith hon a diolchwn yn fawr i chi am hynny gan ein bod wedi gallu cefnogi ein trigolion yn well. Hoffem i'r Cabinet hefyd ystyried yr adroddiad hwn a'n cofnod o'r cyfarfod hwn er mwyn cael budd o'r mewnwelediad a roddwyd i'r pwyllgor hwn y bore yma.

#### **4. Monitro'r Gyllideb - Mis 2**

Mae llawer o gysylltiadau rhwng yr adroddiad hwn a rhai o'r trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma. Ymddiheuraf eich bod yn derbyn yr adroddiad hwn sy'n cyflwyno'r sefyllfa ym Mis 2 ym mis Mai, a ystyriwyd gan y Cabinet ddiwedd mis Gorffennaf ond oherwydd prinder swyddogion ac egwyl cyfarfodydd yn yr haf, ni fu'n bosibl dod â hyn atoch yn gynharach ond gobeithio gallaf ddarparu sefyllfa wedi'i ddiweddarau i chi, yn enwedig o ran Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru. Hoffwn ymddiheuro hefyd am gamgymeriad o ran yr atodiad ar dudalen 33 yr agenda, sy'n darparu safbwynt llawn y cyngor yn hytrach na'r meysydd yn eich cylch gwaith, ond byddwn yn canolbwyntio ar y rhain.

Cyflwynir y diffyg cyffredinol a ragwelir ar y cyfrif refeniw ar dudalen 23 yr agenda ac mae'n nodi diffyg o £9.02m, ond rwy'n teimlo ei bod yn bwysig esbonio hyn ac egluro pa un sy'n ymwneud â'n gwasanaeth craidd a pha un sy'n ymwneud ag effeithiau'r pandemig covid. Mae'r gwahaniaeth yn bwysig gan ein bod wedi rhoi cyfrif ganddynt yn y gobaith o adennill rhai o'r costau a cholli incwm o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Ar y pwynt yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid oeddem yn ymwybodol pa arian y gallem ei gael, ond rydym bellach wedi

dysgu bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'r gronfa hyd at fis Mawrth 2022, ond bydd arian yn cael ei dapro y mae angen ei ystyried.

Manylir ar ffocws craidd y tîm cyllid ar dudalen 26 y pecyn, gan dynnu sylw at y diffyg cyflenwi gwasanaeth craidd o £2.5 miliwn, sy'n cynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â galw gwasanaethau plant yn bennaf ac yn yr un modd mewn gwasanaethau oedolion, yn bennaf oherwydd yr angen i recriwtio staff ychwanegol i ateb y galw cynyddol. Mae pwysau cynnal a chadw fflyd yn effeithio ar gyllideb y Gwasanaeth Cludiant Teithwyr ac mae costau uwch yn gysylltiedig ag achosion o anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Hefyd, mae costau'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Landlordiaid, oherwydd yr angen i gyrraedd targedau incwm. Mae'n bwysig nodi bod pwysau'n cael eu hategu gan gasglu treth incwm a gwariant cyfalaf, drwy dderbyniadau cyfalaf. Nid yw'n ffordd gynaliadwy ymlaen a bydd angen i ni ystyried hyn yn y cynllun ariannol tymor canolig.

O ran gwasanaethau sy'n dod o dan gylch gwaith y pwyllgor hwn, y gorwariant a ragwelir yw 2.6m ond mae rhywfaint o hyn yn gysylltiedig â covid a gellir ei adennill a'i wrthbwysu gan gyllid Llywodraeth Cymru. Mae gennym rai achosion gorwariant nad yw'n gysylltiedig â covid y mae angen i gynlluniau adfer y gyllideb eu rheoli'n ofalus. Siaradodd y swyddog ag aelodau drwy bob un o'r achosion gorwariant yn ei dro a oedd yn cael eu harddangos ar y sgrin.

Cyflwynodd y swyddog y sefyllfa gyfalaf hefyd, gan dynnu sylw at y ffaith bod y gyllideb a dybiwyd ym mis 2 yn agored i newid oherwydd cynnydd mewn prisiau ar draws sawl ardal a bydd sefyllfa lawnach yn cael ei chyflwyno ym mis 6. Diolchodd y cadeirydd i'r ddau swyddog cyllid am gyflwyno'r adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan y pwyllgor.

Herio gan Aelodau

- Mae'n ymddangos nad yw llawer o'r ffigyrau wedi'u cyflawni oherwydd covid. O ran meysydd parcio er enghraifft, roeddwn i'n meddwl bod y rhain yn niwtral o ran cost, felly sut y byddai colli defnydd oherwydd covid yn effeithio ar y gyllideb honno?

Gyda rhai gwasanaethau, rydym wedi'n cyllidebu i gyrraedd targedau penodol, felly, er enghraifft, mae prydau ysgol sy'n cael eu gweini'n wahanol yn golygu y bydd y nifer sy'n manteisio ar y rhain wedi effeithio ar y llinell waelod ac yn ymddangos fel pwysau cost. Defnyddir costau parcio ceir i wrthbwysu costau eraill fel diogelwch y ffyrdd a chostau priffyrdd, felly roedd hyn yn effeithio ar y gyllideb ac yn ymddangos fel pwysau. Mae angen i ni gael lefel benodol o barcio talu ac arddangos i gyrraedd y targed incwm hwnnw.

- Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau gwastraff. Gan nad oes angen cadw pellter cymdeithasol mwyach, rwy'n tybio nad oes angen y faniau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau casgliadau gwastraff mwyach.

Ydych, rydych chi'n gywir, bydd y gost hon yn cael ei hadennill gan Lywodraeth Cymru ac ni ddylai effeithio ar sefyllfa'r dyfodol.

- A yw'r staff Gorfodi Parcio Sifil yn ôl yn eu rolau arferol?

Ydynt, roedd rhai yn gwarchod, ac yr oedd rhai'n sâl, ond dylai gorfodaeth ailddechrau nawr gyda nifer lawn o staff a gallwn adrodd ar hyn ym mis 6.

- A ydym i fod i dderbyn grant ar gyfer meysydd parcio neu a yw'n cael ei gyfuno yn y cyllid caledi?  
Mae gennym ddiffyg yng nghyllideb meysydd parcio oherwydd incwm a gollwyd ond bydd y gronfa galedi yn ymdrin â hynny.



Diolchodd y Dirprwy Brif Weithredwr i'r tîm cyllid am eu gwaith caled wrth geisio cydbwysu cyllidebau yn ystod cyfnodau digynsail. Esboniodd fod dibyniaeth sylweddol wedi bod ar y gronfa caledi Covid a'n bod wedi cael ein hariannu'n briodol gan hynny a hebdo, byddai'r sefyllfa wedi bod yn anghynladwy. Mae gennym ychydig o risgiau sylweddol, yn gyntaf o ran y gronfa caledi gan y bydd yr arian yn lleihau yn ystod y 6 mis diwethaf o gyllid, felly ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, rydym yn fodlon y gallwn barhau i adennill incwm ond nid oes disgwyl y bydd y gronfa hon yn parhau'r flwyddyn nesaf sy'n peri risgiau i ni. Bydd angen i ni gofio na fydd rhai o'r materion hyn yn diflannu. Mae canolfannau hamdden a'r angen am ymbellhau cymdeithasol yn effeithio ar gynhyrchu incwm ac yn yr un modd â referniw meysydd parcio, felly mae angen i ni ddeall yr hyn a gwmpesir, mae digartrefedd yn enghraifft allweddol. Rydym yn cael ein tanariannu'n sylweddol drwy'r setliad felly ar ôl mis Mai 2022, mae risgiau clir i'w rheoli a'u lliniaru. Mae gorwariant gwasanaeth craidd o hyd yn y gwasanaethau i oedolion ac anghenion dysgu ychwanegol, sy'n effeithio'n drwm ar gyllid y cyngor, felly mae llw o faterion i fynd i'r afael â hwy, wrth geisio pennu cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Casgliad y Cadeirydd:

Cynigiodd y cadeirydd ei diolch i swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r cyd-destun ychwanegol a roddwyd i gynorthwyo aelodau i ddeall y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf.

## **5. Adroddiad Yr Aelod Claddedigaethau ac Amlosgiadau**

Dywedodd y Cynghorydd Smith wrth y pwyllgor ei bod wedi paratoi adroddiad ar bwnc a oedd yn bersonol iawn iddi ac yn fater yr oedd yn teimlo'n gryf yn ei gylch, o ran y cymorth sydd ar gael i bobl i gynllunio gwasanaethau mor bwysig i anwyliaid ar adeg anoddaf eu bywydau pan fyddant yn galaru. Gofynnodd a fyddai gan y pwyllgor ddiddordeb mewn cyflwyno ei hadroddiad i gyfarfod pwyllgor dethol yn y dyfodol, y gallem wahodd y swyddogion perthnasol iddo. Cytunodd y pwyllgor y byddent yn croesawu cyflwyno'r adroddiad i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael, yn unol ag argaeledd swyddogion. Diolchodd y cadeirydd i'r Cynghorydd Smith am ei gwaith caled wrth lunio'r adroddiad hwn a chadarnhaodd y byddai'r pwyllgor yn croesawu trafodaeth lawn ar yr adroddiad.

## **6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

### **7. Rhestr Weithredu**

### **8. Blaenraglen Waith Cymunedau Cryf**

Cytunodd y pwyllgor i gyflwyno'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Cynghorydd Smith ar Gladdedigaethau ac Amlogfeydd i gyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y pwyllgor hefyd i drefnu gweithdy ar lifogydd.

### **9. Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor**

Ni chodwyd unrhyw eitemau ychwanegol.

### **10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

The meeting ended at **12.26 pm**